Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Alltcafan
**Neuadd Pentrecwrt**
**Pentrecwrt**
**Llandysul**
**Sir Gâr**
**SA44 5BD**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2017**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Alltcafan wedi'i leoli yn neuadd bentref Pentrecwrt, ger Llandysul yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad wedi bod yn gweithredu ers 2014 ac mae ar agor am bum bore'r wythnos. Mae gan y lleoliad dau aelod o staff.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 18 o blant rhwng dwy a thair oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 13 o blant yn mynychu, chwech ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith y cartref i fwyafrif y plant, gyda lleiafrif yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Cymraeg yw prif iaith yr addysg yn y lleoliad. Nid oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd.

Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd er Ebrill 2015. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2015. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei arolygu gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn
- medrau rhifedd a llythrennedd bron pob plentyn yn datblygu'n gadarn
- mwyafrif y plant yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu
- bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda
- ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys
- ymarferwyr yn modelu Cymraeg o safon dda iawn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar a geirfa'r plant
- ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad personol ac emosiynol plant yn dda
- ethos croesawgar a chartrefol yn bodoli, sy'n darparu amgylchedd diddorol a diogel i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth gadarn i hyrwyddo lles a datblygiad plant
- yr arweinydd yn arwain a gweithredu gwelliannau yn effeithiol
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i godi safon y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o'i berfformiad a'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach
- ganddo weithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr yn flynyddol
- ymarferwyr yn adnabod anghenion y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ymrwymiad cryf i wella yn barhaus
- yr adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd yno
- ymarferwyr yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio
- ganddo bartneriaethau cadarn gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith ar safonau a lles y plant

## Argymhellion

A1 Ffurfioli'r broses o rannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd a datblygiad eu plant

A2 Sicrhau bod y cynllun datblygu yn cynnwys amserlen benodol i fonitro camau gweithredu yn systematig

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae medrau rhifedd a llythrennedd bron pob plentyn yn datblygu'n gadarn. Mae mwyafrif y plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w gilydd ac i oedolion. Mae'r rhai sy'n cyrraedd y cylch heb y Gymraeg yn gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu medrau iaith. O'r plant a ddaw o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad, mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio geirfa eang ac yn ymestyn brawddegau'n effeithiol, er enghraifft wrth siarad am anifeiliaid o begwn y gogledd. Mae bron pob plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn eu trafod yn gywir. Mae llawer o blant yn adnabod eu henwau mewn print a lleiafrif yn adnabod enwau pob plentyn arall wrth gofrestru. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy wneud marciau ac mae lleiafrif yn dechrau ffurfio llythrennau sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r mwyafrif yn datblygu dealltwriaeth bwrpasol o ddiben ysgrifennu, er enghraifft wrth farcio yn swyddfa'r milfeddyg.

Mae bron pob plentyn yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau wrth gyfrif. Mae ychydig yn medru enwi rhifau dilynol yn gywir wrth drafod y dyddiad ac wrth rifo nifer y plant sy'n bresennol. Mae'r lleiafrif yn rhifo hyd at ugain a gall y mwyafrif rhifo o ddeg i lawr i sero yn annibynnol. Gall y mwyafrif adnabod siapiau dau ddimensiwn yn gywir wrth dorri papur ac wrth arbrofi gyda'r rhew yn yr ardal allanol.

Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau corfforol wrth ddefnyddio siswrn yn fedrus ac wrth drin offer dringo'n briodol. Mae'r mwyafrif yn medru defnyddio ystod eang o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio llyfr electronig ac wrth drin offer gwrando.

Mae lleiafrif o blant yn dechrau datrys problemau yn annibynnol, er enghraifft wrth greu iglw ar gyfer pengwin. Mae'r plant i gyd yn manteisio'n dda ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt ddatblygu eu medrau meddwl, er enghraifft wrth ystyried beth sydd wedi digwydd i'r blociau iâ yn ystod y sesiwn.

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, yn annibynnol. Mae'r mwyafrif yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y profiadau a gynigir iddynt. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn unol â'u hoed a'u datblygiad, er enghraifft wrth drin anifeiliaid sâl yn swyddfa'r milfeddyg.

Mae ymddygiad bron pob un yn dda. Maent yn gwrtais ac yn ymateb i'w gilydd ac oedolion gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf yn aros eu tro ac yn rhannu offer yn ystyrlon. Mae pob plentyn yn helpu i dacluso ac yn mwynhau cyfrifoldebau'r swydd o

fod yn ‘helpwr y dydd’, er enghraifft wrth arllwys y llaeth yn annibynnol ac wrth weini ar eraill adeg byrbryd.  Mae’r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o hunanhyder ac annibyniaeth wrth wisgo’n addas ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt yr hawl i fynegi barn, er enghraifft wrth gynnig syniadau ar gyfer cynllunio’r thema neu wrth benderfynu ble i fynd ar ymweliad.  Mae’r mwyafrif yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo i gadw’n iach cyn bwyta byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.  Mae’r cynlluniau ar gyfer y gweithgareddau ffocws yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm.  O ganlyniad, mae’r plant bron i gyd yn gwneud cynnydd da.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’r ardaloedd dysgu yn effeithiol i sicrhau bod y gweithgareddau’n rhoi cyfleoedd cyson i blant wneud dewisiadau a datblygu’n ddysgwyr annibynnol.  Mae canllawiau clir i ymarferwyr weithio’n llwyddiannus a chyfoethogi’r ddarpariaeth i’r plant ym mhob ardal ddysgu.  Maent yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, er enghraifft trwy lunio map meddwl o wahanol grwpiau anifeiliaid y maent am dalu sylw iddynt.

Mae’r cyfleoedd a ddarperir i blant siarad, darllen ac ysgrifennu yn nodwedd gref yn y rhan fwyaf o’r ardaloedd dysgu. Er enghraifft, yn swyddfa’r milfeddyg, gall plant sgwrsio ar y ffôn, ‘darllen’ cyfarwyddiadau, a chadw ‘nodiadau’ ar bapur.

Mae’r lleoliad yn sicrhau bod medrau rhifedd y plant yn datblygu’n dda.  Yn ogystal ag yn ardal y gweithgareddau mathemategol, mae cyfleoedd rheolaidd yn yr ardaloedd dysgu eraill, ac yng ngweithgareddau rheolaidd y cylch, i ddatblygu gallu’r plant i rifo, cyfrif a defnyddio siapiau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn dda.  Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn defnyddio’r offer sydd ar gael yn rheolaidd ac yn effeithiol, gan gynnwys cyfrifiadur, llechen ac offer recordio.  Mae’r lleoliad yn cydweithio’n dda gydag ysgol gynradd leol i sicrhau defnydd o feddalwedd bwrpasol, sy’n cyfoethogi’r ddarpariaeth yn dda.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth y plant o’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig.  Mae’n dathlu Diwrnod Santes Dwynwen trwy greu cardiau, ac maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy wisgo dillad Cymreig.  Maent hefyd yn dathlu diwrnod T Llew Jones trwy wisgo fel cymeriadau o lyfrau’r awdur.

Mae'r cylch yn rhoi ychydig o sylw i ddiwylliannau eraill yn ystod eu sesiynau dysgu. Er enghraifft, maent yn dysgu'r plant am Ŵyl Diwali, a sut mae'n cael ei dathlu.  Mae'r profiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r byd y maent yn byw ynddo.

## Addysgu: Da

Mae gan staff y lleoliad ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r plant ddatblygu eu medrau ar draws y chwe maes dysgu. Maent yn cydweithio’n hwylus gyda’i gilydd i sicrhau profiadau da i’r plant.

Mae’r arweinydd a’r cynorthwywyr yn rhoi dewis da i’r plant benderfynu ar ba weithgareddau i’w dilyn yn yr ardaloedd parhaus. Maent yn parchu eu dewisiadau ac yn osgoi eu cyfarwyddo’n ormodol. O ganlyniad, mae’r plant bron i gyd yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr berthynas dda gyda’r plant ac, o ganlyniad, mae’r plant yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.

Mae’r ymarferwyr yn modelu iaith Gymraeg naturiol a safonol yn dda iawn. Maent yn annog y plant i ddarllen enwau ei gilydd wrth gofrestru, siarad am y tywydd a thrafod y dyddiad yn rheolaidd. O ganlyniad, mae safonau llafar a geirfa’r plant yn datblygu’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn holi plant yn fedrus ac yn adnabod anghenion unigolion yn dda. Maent yn ymuno â chwarae’r plant yn gyson, gan ymyrryd yn bwrpasol er mwyn eu herio a symud y dysgu yn ei flaen yn llwyddiannus.

Mae trefniadau i asesu ac olrhain cynnydd plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn arsylwi’n barhaus ar weithgareddau’r disgyblion ac yn tynnu ffotograffau cyson i gofnodi cynnydd arwyddocaol. Mae gan bob plentyn gofnod ffotograffig o gynnydd dros gyfnod, ac mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio’r camau nesaf ac i lunio targedau pwrpasol ar eu cyfer.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r arweinydd wedi dechrau cadw cofnod electronig o gynnydd plant yn ôl deilliannau cyrhaeddiad. Mae’n trosglwyddo’r wybodaeth hon i’r ysgol gynradd briodol wrth i’r plant ddechrau yno. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at sicrhau parhad yn eu dysgu.

Nid oes adroddiadau ffurfiol i rieni ar gynnydd a chyrhaeddiad eu plant, ond mae’r staff yn tynnu eu sylw’n gyson at unrhyw ddatblygiad arwyddocaol, ac yn rhoi gwybodaeth iddynt os ydynt yn dymuno hynny.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo hylendid, bwyta ac yfed yn iach, a chadw’n heini. Mae’r staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn darparu byrbryd iach ar eu cyfer. Er bod y lle yn gyfyng ar eu cyfer, mae’r staff yn trefnu gweithgareddau rheolaidd y tu fewn a thu allan i hybu eu datblygiad corfforol, er enghraifft pedalu beiciau a defnyddio teganau mawr. Mae hyn yn datblygu ffitrwydd y plant yn effeithiol ac yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw’n heini.

Mae profiadau dysgu’n hyrwyddo datblygiad personol ac emosiynol plant yn dda. Mae gan y lleoliad ganllawiau da i hybu ymddygiad da, drwy atgoffa’r plant am y rheolau ar gyfer gwrando’n effeithiol, er enghraifft. Mae cyfleoedd parhaus i blant wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol tuag at ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant. Mae pob un o’r ymarferwyr yn ofalgar o’r plant ac yn eu hannog i ddangos parch tuag at eraill yn gyson.

Mae'r lleoliad yn hybu datblygiad ysbrydol y plant yn briodol trwy adrodd gweddi cyn amser byrbryd, ac ar ddiwedd y sesiwn ddysgu.  Mae'n datblygu medrau cymdeithasol y plant yn dda trwy gynnal digwyddiadau fel diwrnod mabolgampau, neu ddisgo calan gaeaf.  Mae ymweliadau â lleoedd diddorol, a theithiau o gwmpas yr ardal, yn hybu adnabyddiaeth y plant yn dda o'u hardal.

Er nad oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd, mae ganddo drefniadau priodol i gefnogi plant, gan gynnwys sicrhau cymorth iddynt gan wasanaethau ac asiantaethau lleol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae Cylch Meithrin Alltcafan yn lle croesawgar a chartrefol, sy'n darparu amgylchedd diddorol a diogel ar gyfer y plant.  Mae'r staff yn trin pob plentyn yn gyfartal, ac yn sicrhau bod pob un yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r holl weithgareddau.  O ganlyniad, mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr, a rhwng y plant a'i gilydd.

Er bod y staff yn gorfod gosod a chlirio'r dodrefn a'r adnoddau i gyd yn ddyddiol, mae'r ystafell yn drefnus a lliwgar, ac yn denu plant i chwarae a dysgu yn llwyddiannus.  Mae'r ardaloedd ar gyfer gweithgarwch parhaus yn ddeniadol, ac yn cynnwys adnoddau da, sy'n annog y plant i fod yn weithgar.  Mae'r ardal allanol wedi ei threfnu'n dda, ac yn cynnwys adnoddau sy'n symbylu disgyblion i ddysgu.

Mae hysbysfwrdd yn y fynedfa yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am ddigwyddiadau a threfniadaeth y cylch.  Mae'n fodd effeithiol o rannu gwybodaeth â nhw.  Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol er mwyn atgyfnerthu profiadau'r plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn i hyrwyddo lles a datblygiad plant.  Mae'n arwain a gweithredu gwelliannau yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae gan y lleoliad hanes llwyddiannus o roi newid ar waith.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u dyletswyddau.  Maent yn cydweithio'n effeithiol i godi safon y ddarpariaeth a deilliannau'r plant,  er enghraifft wrth flaenoriaethu'r angen i dargedu medrau llafar plant.  Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos gofalgar a hapus yn effeithiol iawn.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o berfformiad y lleoliad a'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach.  Maent yn arsylwi ar sesiynau yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i weddill y pwyllgor, a'u hysbysu am unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen, er enghraifft wrth sicrhau bod gan ymarferwyr amser ac adnoddau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr yn flynyddol. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol sy’n targedu anghenion ymarferwyr yn briodol, er enghraifft wrth sicrhau bod staff yn cael mynediad i hyfforddiant ar ddatblygu iaith plant er mwyn eu galluogi i gynnal sesiynau llefaredd effeithiol.

Mae’r person cyfrifol a’r pwyllgor yn sicrhau bod polisïau statudol yn eu lle ac maent yn cynllunio’n briodol ar gyfer anghenion cyllidol yn strategol. Mae aelodau’r pwyllgor wedi neilltuo egni ac amser i sicrhau eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth a deilliannau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ymrwymiad cryf i wella’n barhaus. Mewn cyfnod byr, mae’r ymarferwyr wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth er mwyn ehangu profiadau i’r plant yn llwyddiannus. Maent yn arfarnu a chynnal gwelliannau cyson wrth addasu a datblygu’r ddarpariaeth yn ddyddiol.

Mae’r weithdrefn hunanarfarnu yn gymharol newydd. Er hyn, mae’r adroddiad yn ddarlun cywir o’r hyn sy’n digwydd yn y lleoliad. Mae’r staff ac aelodau’r pwyllgor rheoli yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn llwyddiannus a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae’r cynllun datblygu a seiliwyd ar ddeilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu yn berthnasol i anghenion y plant a’r lleoliad. Mae’r meysydd i’w datblygu yn canolbwyntio’n glir ar wella deilliannau’r plant yn dilyn arsylwadau. Fodd bynnag, nid oes amserlen reolaidd i fonitro’r camau gweithredu’n systematig.

Mae gan ymarferwyr agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu ac maent yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio, er enghraifft wrth amrywio cynllun a chynnwys y ddarpariaeth yn ddyddiol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant ac yn addasu'r cynnwys ar gyfer y lleoliad i dargedu anghenion deilliannau’r plant, er enghraifft y defnydd o ymwelwyr i ddarllen stori gorfforol i’r plant.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol i ddatblygu a gyrru gwelliant. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw awgrymiadau a thargedau a osodir i’r staff a’r pwyllgor yn cael eu gweithredu’n briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cadarn â rhieni a gofalwyr. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy gynnal sgyrsiau dyddiol â nhw, arddangos gwybodaeth ar hysbysfwrdd a thrwy roi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol. Mae ymarferwyr ar gael yn ddyddiol i drafod datblygiad plant yn anffurfiol gyda rhieni ac mae rhieni’n ymwybodol bod croeso iddynt drafod unrhyw fater gyda’r ymarferwyr yn ddyddiol.

Mae lleoliad yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol y pentref ac mae ganddo bartneriaethau llwyddiannus â’r gymuned leol, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian at achosion da. Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd da o’r gymuned leol er mwyn ymestyn darpariaeth a phrofiadau i’r plant, er enghraifft wrth ddefnyddio ardaloedd gwyllt a pharc lleol i godi ymwybyddiaeth y plant o fyd natur.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng y lleoliad a’r ysgol leol gan fod y pennaeth ac athrawes y dosbarth derbyn yn ymweld â’r plant yn dymhorol. Mae hyn yn hwyluso’r broses drosglwyddo yn hwylus. Mae arweinydd y lleoliad yn gwneud defnydd priodol o arbenigedd ysgolion lleol i gefnogi’r staff i ddatblygu gwell dulliau addysgu ac asesu mewn meysydd penodol, er enghraifft wrth baratoi tasgau TGCh heriol ar raglenni rhyngweithiol.

Mae’r bartneriaeth adeiladol sy’n bodoli rhwng y lleoliad a swyddog datblygu Mudiad Meithrin ac athro ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cefnogi gwelliant parhaus y lleoliad yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yna ddigon o staff a bod ganddynt gymwysterau addas a phrofiad perthnasol i weithio gyda phlant ifanc. Gwneir defnydd da iawn o fedrau unigol yr ymarferwyr ac aelodau’r pwyllgor i ddiwallu anghenion y plant, er enghraifft trefnu sesiwn gymunedol er mwyn symud sied adnoddau a chreu gwell ardal allanol.

Mae’r trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac yn adnabod anghenion yr ymarferwyr yn dda. Mae cysylltiad perthnasol rhwng targedau’r ymarferwyr a blaenoriaethau gwella’r lleoliad. Trwy ddefnyddio gwahanol asiantaethau, mae’r lleoliad yn sicrhau cyfleoedd priodol i ymarferwyr dderbyn hyfforddiant addas. Mae’r ymarferwyr wedi manteisio ar gysylltiadau â lleoliadau eraill er mwyn datblygu ystod o adnoddau i dargedu deilliannau penodol, er enghraifft defnyddio ac ailgylchu offer a chelfi cylchoedd eraill i hyrwyddo medrau marcio annibynnol y plant.

Mae’r arweinwyr yn flaengar wrth sicrhau dyfodol cynaliadwy i’r lleoliad. Mae ganddynt reolaeth gadarn ar gostau a gwariant ac maent yn greadigol wrth sicrhau bod arian yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer gwelliannau penodol. Enghraifft dda o hyn yw’r gwariant ar adnoddau TGCh i godi safonau llythrennedd a rhifedd y plant.

Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol a’r deilliannau cadarnhaol, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |